# ASESIAD
# LLETY SISPSIWN A THEITHWYR TORFAEN

Cyfnod adolygu statudol Chwefror 2016 - Chwefror 2022

## Crynodeb

Dadansoddiad o Anghenion Llety y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn Nhorfaen

This document is available in English

(Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg)

# Cynnwys


**Pennod 1: Crynodeb Gweithredol** 4

**Pennod 2: Cyd-destun polisi** 6

**Deddfwriaeth ac Arweiniad** 6

Deddf Tai (Cymru) 2014 6

Llywodraeth Cymru - Cynnal Asesiadau O Anghenion Llety Sipsiwn A Theithwyr (GTAA) 6

Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 6

Llywodraeth Cymru - Cylchlythyr 005/2018 Cynllunio ar gyfer Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn" 7

Llywodraeth Cymru - Dylunio Canllawiau Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr (Mai 2015) 7

**Polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol** 7

Lleoliadau safle-benodol 7

Polisïau sy'n seiliedig ar feini prawf 7

**Pennod 3: Cefndir a dadansoddiad o'r data presennol** 8

**Canfyddiadau Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr yn flaenorol** 8

Angen a ganfuwyd sydd angen ei diwallu a'r cynnydd hyd yma 8

**Data Poblogaeth** 8

Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr 8

Cyfrif Carafannau 8

Gwersylloedd heb awdurdod 9

Cyfrifiad 2011 9

Y Gofrestr Tai Cyffredin 9

Gwasanaeth Addysg Torfaen 10

Gwybodaeth Leol Arbenigol 10

**Y llety a ddarperir ar hyn o bryd** 11

Shepherds Hill a Lower Shepherds Hill, Pont-y-pŵl 11

Mountain View 11

The Stables, Pont-y-pŵl 11

Rose Cottage, Pont-y-pŵl 12

**Caniatâd Cynllunio Byw / Ceisiadau Cynllunio yn y Dyfodol** 12

Pennod 4: Methodoleg 13

Grŵp Llywio 13

Methodoleg yr Astudiaeth 14

Rhestr Wirio Ymgysylltu 15

Newidiadau i'r holiadur 16

Pennod 5: Canfyddiadau'r Arolwg 19

Cyfweliadau ag Aelwydydd 19

Proffil Demograffig o'r Boblogaeth 19

Dyheadau o ran Llety 20

Twf Aelwydydd 21

Pennod 6: Asesu Anghenion Llety 22

Anghenion Preswyl heb eu diwallu 22

Cyflenwad Preswyl Arfaethedig 22

Tabl Anghenion 23

Angen Tramwy na ddiwallwyd 23

Pennod 7: Casgliadau ac Argymhellion 24

Rhestr o Ffigurau 25

Atodiadau 26

ATODIAD 1 - RHESTR TERMAU 26

ATODIAD 2 - GWERSYLLOEDD HEB AWDURDOD 28

ATODIAD 3 COFNOD CYFWELIADAU 31

# Pennod 1: Crynodeb Gweithredol

Cynhaliwyd yr Asesiad hwn yn unol â chanllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru 'Cynnal Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr' (GTAA) (Mai 2015) a chafodd ei gymeradwyo gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Diwylliant, Cyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip, Llywodraeth Cymru ar 19 Gorffennaf 2024.

Cynhaliwyd yr Asesiadau diweddaraf gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen gyda chymorth *Opinion Research Services (ORS) Ltd*, sef ymgynghoriaeth ymchwil gymdeithasol yn Abertawe. Cynorthwyodd ORS drwy roi cyngor cyffredinol ar gynnal y gwaith maes, cyngor ar wybodaeth ychwanegol a fydd ei hangen o'r cyfweliadau ag aelwydydd, cyngor technegol ar ddadansoddi'r cyfweliadau ag aelwydydd a chwblhau'r asesiad anghenion a chyngor technegol ar gyfrifo cyfraddau ffurfio aelwydydd newydd.

Pwrpas yr asesiad hwn yw diweddaru GTAA Cylch 1 Torfaen 2016 (2016-21), a fyddai fel arfer wedi cael ei adolygu yn 2021, o ystyried y gofyniad cyfreithiol i'w adolygu bob 5 mlynedd. Fodd bynnag, mewn llythyr gan Lywodraeth Cymru (16 Rhagfyr 2020) cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog ei bwriad i ymestyn y cyfnod adolygu ar gyfer cynnal GTAAau 12 mis ar gyfer yr Awdurdodau Lleol hynny y disgwylir eu Hasesiad yn 2021. Felly mae'r asesiad hwn ar gyfer y cyfnod adolygu statudol 2016 - 2022.

Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor wrthi'n adolygu Cynllun Datblygu Lleol Torfaen (CDLl) (2006-2021), ac mae'n ofynnol i CDLl Newydd Torfaen (2018-2033) nodi cyflenwad addas o safleoedd (lleiniau) i ddiwallu unrhyw anghenion a nodwyd ar gyfer llety parhaol a symudol ymysg y gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn ystod cyfnod y cynllun hyd at 31 Mawrth 2033.

Felly, cynhaliwyd adolygiad GTAA Cylch 2 2020 yn gynt, ac mae'n fodd cadarn o asesu'r angen am y pum mlynedd nesaf (2020-2025) ac yn amcangyfrif yr angen yn ystod cyfnod y CDLl Newydd (2020-2033); gan nodi ei fod yn ofynnol yn gyfreithiol iddo gael ei adolygu bob pum mlynedd. Fodd bynnag, mae "Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040' (Polisi 19), Llywodraeth Cymru, angen 'Cynllun Datblygu Strategol De-ddwyrain Cymru' (CDS), fydd yn cael ei lunio gan Gydbwyllgor Corfforaethol statudol rhwng 2022 a 2026), i ganfod "angen sipsiwn a theithwyr" yn y rhanbarth (a, lle bo angen, Cynlluniau Datblygu Lleol cyfansoddol); a allai olygu y bydd angen mynd ati'n gynnar i adolygu GTAA 2020.

Yn olaf, bydd y Cyngor, sydd â dyletswydd statudol i ddarparu unrhyw angen heb ei ddiwallu am lety i Sipsiwn a Theithwyr, hefyd yn defnyddio canfyddiad yr Asesiad, ar ôl ystyried y safleoedd preifat a ddarparwyd.

Yn gryno, Canfu GTAA Cylch 2020 fod 54 o aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr yn Nhorfaen wedi'u lleoli ar 5 safle, 2 gyhoeddus a 3 preifat ar hyn o bryd; amcangyfrifir y bydd y rhain yn cynyddu i 65 o aelwydydd (cynnydd o 11 o aelwydydd) erbyn 2025; ac amcangyfrifir y bydd hyn yn cynyddu i 79 o aelwydydd (cynnydd o 24 aelwyd) erbyn 2033.

Felly, ar ôl ystyried y lleiniau parhaol fydd yn dod yn wag yn y dyfodol a'r 21 llain a ganiateir sydd eto i'w hadeiladu ar safle Lower Shepherds Hill y Cyngor, ystyrir bod digon o leiniau parhaol ar hyn o bryd / a ganiateir i ateb y galw a ragwelir dros y pum mlynedd nesaf.

O ran yr amcangyfrif dangosol o’r angen yn ystod cyfnod y CDLl Newydd (2020-2033), gallai fod angen heb ei ddiwallu am 7 llain barhaol newydd hyd at 2033. I'r perwyl hwn, nodir bod perchennog safle preifat Rose Cottage ar hyn o bryd yn ceisio cael caniatâd cynllunio i adeiladu 10 llain barhaol newydd o fewn CDLl cyfredol Torfaen; a fyddai'n ddigon o leiniau newydd i ddiwallu'r angen a ragwelir. Er, cydnabyddir y bydd hynny'n fater i Arolygydd y CDLl ei ystyried yn Archwiliad CDLlN Torfaen maes o law.

Yn olaf, yn seiliedig ar lefelau’r galw yn flaenorol, mae'r GTAA o'r farn bod y ddarpariaeth bresennol ar gyfer 2 lain dramwy yn diwallu'r angen am lety o'r fath ar hyn o bryd.

Felly, o ganlyniad yr Asesiad hwn, argymhellir bod y Cyngor yn: -

1. parhau i gynnal rhestr aros gadarn a chyfredol i fonitro'r galw am leiniau;
2. monitro’r galw a gweithredu Cam 2 o safle Lower Shepherds Hill y Cyngor, yn ôl yr angen; a
3. gweithio gyda pherchennog safle preifat Rose Cottage i gyflwyno 10 llain newydd.

# Pennod 2: Cyd-destun polisi

Mae’r Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) hwn yn anelu i gyflwyno asesiad cynhwysfawr o anghenion y gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn awr ac yn y dyfodol yn Nhorfaen. Mae'n nodi a oes angen darparu llety ychwanegol yn ystod y pum mlynedd nesaf (2020-2025) a bydd yn llywio Cynllun Datblygu Lleol Newydd Torfaen (2018-2033), sy'n cael ei baratoi ar hyn o bryd.

Mae’r diffiniad o 'Sipsiwn a Theithwyr' at ddibenion yr asesiad hwn wedi ei gynnwys yn adran 108, Deddf Tai (Cymru) 2014:-

*“Personau sy’n arfer ffordd nomadig o fyw, beth bynnag fo’u hil neu eu tarddiad, gan gynnwys:*

1. *Personau sydd, ar sail eu hanghenion addysg, eu hanghenion iechyd neu eu henaint eu hunain, neu anghenion addysg, anghenion iechyd neu henaint eu teulu neu ddibynnydd, ac ar y sail honno yn unig, wedi rhoi’r gorau i deithio dros dro neu yn barhaol, a*
2. *Aelodau o grŵp trefnedig o siewmyn teithiol neu bersonau sy’n rhan o syrcasau teithiol (pa un a ydynt yn cyd-deithio mewn grŵp o’r fath ai peidio); a*
3. *Unrhyw bersonau eraill sydd â thraddodiad diwylliannol o nomadiaeth neu o fyw mewn cartref symudol.”*

Mae diffiniad eang yn sicrhau bod ystod eang o gymunedau yn cael eu cynnwys, a bydd hyn yn rhoi gwell dealltwriaeth o anghenion llety'r cymunedau hyn.

**Gellir dod o hyd i Rhestr Termau yn Atodiad 1**

## Deddfwriaeth ac Arweiniad

**Deddf Tai (Cymru) 2014**
Mae'r Ddeddf hon yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau lleol i sicrhau bod anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu hasesu'n briodol a bod yr angen a nodwyd am leiniau yn cael ei diwallu.

**Llywodraeth Cymru - Cynnal Asesiadau O Anghenion Llety Sipsiwn A Theithwyr (GTAA)** (Mai 2015)
Mae'r cyhoeddiad hwn yn nodi'r broses o asesu'r anghenion llety hyn a sut i gynnal GTAA.

**Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013**
O dan y Ddeddf hon, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol arfer eu pwerau, cyn belled ag y bo angen, i sicrhau bod safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu darparu ar gyfer yr angen nas diwallwyd. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu y bydd angen safleoedd ychwanegol sy'n eiddo i awdurdodau lleol, ond lle mae eu hangen, yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am sicrhau eu bod yn cael eu darparu.

**Llywodraeth Cymru - Cylchlythyr 005/2018 Cynllunio ar gyfer Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn"** (Mehefin 2018)
Mae'r cylchlythyr hwn yn nodi'r canllawiau diweddaraf ar agweddau cynllunio o ran canfod safleoedd cynaliadwy ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Mae hefyd yn amlinellu sut y gall awdurdodau cynllunio a Sipsiwn a Theithwyr gydweithio i gyflawni'r nod hwn.

**Llywodraeth Cymru - Dylunio Canllawiau Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr** (Mai 2015)
Canllaw anstatudol i Awdurdodau Lleol sy'n ystyried darparu gwasanaethau i Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw ar safleoedd preswyl yn eu hawdurdod, a'r ffordd orau i ddarparu'r gwasanaethau hyn.

## Polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol

Mae Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) cyfredol Torfaen (2006-2021) yn nodi'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer datblygu a defnyddio tir o fewn y Fwrdeistref Sirol (ac eithrio'r ardal a weinyddir gan Awdurdod Cynllunio Lleol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog). Mae Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN) Torfaen (20018-2033) wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a bydd canlyniadau GTAA Cylch 2 2020 yn cael eu bwydo i'r cynllun newydd.

**Lleoliadau safle-benodol**
Fe wnaeth GTAA Cylch 1 2016 yn flaenorol, ganfod angen am 6 llain parhaol ychwanegol a 2 lain tramwy hyd at 2021. Cafodd y gofyniad hwn ei fodloni drwy ddatblygu 10 llain newydd ar hen Gae Pêl-droed Rhas , a ddaeth yn adnabyddus fel safle Lower Shepherds Hill. Gwnaed addasiad hefyd i safle presennol Shepherds Hill, i greu 1 llain barhaol ychwanegol a 2 lain dramwy; a fyddai'n diwallu'r angen am ddarpariaeth dramwy yn lleol.

***Hen Gae Pêl-droed Rhas*** (Pont-y-pŵl)
Mae'r hen safle chwarae hwn wedi'i leoli ger safle presennol Sipsiwn a Theithwyr Shepherds Hill a chafodd ei ddyrannu yn CDLl Torfaen ar gyfer 32 o leiniau parhaol (o dan **Bolisi H7/2**); a chafodd ganiatâd cynllunio ar gyfer **31** o leiniau parhaol ym mis Ionawr 2015. Cwblhawyd Cam 1 yn 2016, gan ddarparu **10** llain ychwanegol erbyn mis Mawrth 2016.

***Rose Cottage*** (Pont-y-pŵl)
Mae'r 'ehangiad' hwn i'r safle preifat presennol wedi'i ddyrannu yn CDLl Torfaen (o dan **Bolisi H7/1**) ar gyfer **10** llain barhaol ychwanegol ac mae cais cynllunio wedi'i gyflwyno ar gyfer y nifer hwn o leiniau. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn trafod gyda pherchennog y tir, sy'n bwriadu cwblhau'r broses cais cynllunio a chyflwyno'r safle yn fuan.

**Polisïau sy'n seiliedig ar feini prawf**
Mae CDLl cyfredol Torfaen yn cynnwys **Polisi H8** sy'n seiliedig ar feini prawf ar gyfer asesu safleoedd newydd i Sipsiwn a Theithwyr; a disgwylir y bydd polisi tebyg yn cael ei nodi yn y CDLl newydd. Felly, hyd nes y bydd CDLlN Torfaen yn cael ei fabwysiadu, bydd ceisiadau am safleoedd newydd i Sipsiwn a Theithwyr newydd yn cael eu pennu yn ôl Polisi H8 CDLl, polisi cenedlaethol, Cylchlythyr 005/2018 "Cynllunio ar gyfer Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn" ac unrhyw Bolisïau'r CDLl fel y bo'n briodol.

# Pennod 3: Cefndir a dadansoddiad o'r data presennol

## Canfyddiadau Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr yn flaenorol

Mae Torfaen wedi cynnal astudiaethau Sipsiwn a Theithwyr yn flaenorol (2009, 2011, 2012 a 2016) sydd wedi helpu i lywio'r hyn y mae'r Cyngor yn ei ddeall am anghenion a gofynion y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr sydd wedi'i lleoli yn y fwrdeistref.

**Angen a ganfuwyd sydd angen ei diwallu a'r cynnydd hyd yma**

Canfu astudiaeth Sipsiwn a Theithwyr 2009, gan ddefnyddio cyfradd twf aelwydydd o 4%, fod angen 46 llain ychwanegol yn ystod oes y CDLl (2011 - 2021). Tynnodd yr astudiaeth sylw hefyd at yr angen i fynd i'r afael â nifer o faterion ar safle presennol Shepherds Hill; yn benodol, bod y safle'n orlawn, bod y cynllun yn wael a phryderon parhaus ynglŷn ag ymsuddiant, a oedd yn gwneud y safle'n anniogel i'r trigolion presennol.

Diweddarwyd astudiaeth 2009 yn 2011 ac yn 2012 pan luniodd y Cyngor Astudiaeth Sipsiwn a Theithwyr Torfaen - Nodi Safleoedd Parhaol i Sipsiwn a Theithwyr: Adroddiad ar y Dewis o Safleoedd. Fe wnaeth yr astudiaeth hon adeiladu ar ganfyddiadau astudiaethau 2009 a 2011, cam adneuo CDLl Torfaen, ac adroddiadau a luniwyd gan Capita Symonds, yr oedd yr Awdurdod Lleol wedi ymgysylltu â hwy i gynnal astudiaethau dichonoldeb datblygu safle Shepherds Hill. Nododd astudiaeth 2012 fod angen **42** llain (2012-2021), adolygiad bach o'r ffigur blaenorol o **46**.

Pan gafodd GTAA Cylch 1 2016 ei gwblhau, nodwyd fod angen 6 llain barhaol ychwanegol a 2 lain dramwy yn ystod y 5 mlynedd ganlynol (2016-2021). Yn dilyn yr asesiad, Mae Torfaen wedi llwyddo, gyda chymorth Grant Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr Llywodraeth Cymru, i gyflwyno 10 llain barhaol ychwanegol ar safle newydd a elwir yn 'Lower Shepherds Hill' a 2 lain dramwy ar safle presennol Shepherds Hill.

## Data Poblogaeth

Defnyddiwyd nifer o ffynonellau data i adnabod aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr yn Nhorfaen, sydd wedi galluogi'r Awdurdod Lleol i ddefnyddio technegau ymgysylltu wedi'u targedu, er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r gymuned yn cael digon o gyfle i gyfrannu.

**Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr**
Caiff manylion yr holl breswylwyr sy'n byw ar safleoedd yr awdurdod lleol eu cofnodi gan y Cyngor, fel rhan o'u cyfrifoldebau rheoli tai ar y safle.

**Cyfrif Carafannau**
Mae gan Dorfaen 4 safle Sipsiwn a Theithwyr:

1. Shepherds Hill (Awdurdod Lleol) a Lower Shepherds Hill (Awdurdod Lleol)

2. Mountain View
3. Rose Cottage
4. The Stables

Mae'r rhan fwyaf o’r aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr sy’n hysbys yn byw ar y safleoedd hyn.

Canfu cyfrif carafanau Gorffennaf 2019 fod **80** carafán yn Nhorfaen ar safleoedd awdurdodedig, sy’n dangos cynnydd cyson yn y blynyddoedd diwethaf, gyda chyfrif Ionawr 2012 yn nodi **60** carafán yn unig.[1]

**Gwersylloedd heb awdurdod**

Mae Torfaen wedi bod yn monitro gwersylloedd heb awdurdod ers nifer o flynyddoedd. Ers 2011, cafwyd **56** o wersylloedd heb awdurdod yn Nhorfaen:

***Ffigwr 1 - Nifer y gwersylloedd heb awdurdod yn ôl blwyddyn***

| Blwyddyn | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer y gwersylloedd** | 2 | 2 | 25 | 5 | 9 | 3 | 3 | 6 | 1 |

Yn 2013, gwelwyd nifer uwch na’r arfer o wersylloedd heb awdurdod yn Nhorfaen, ond roedd 23 o’r 25 gwersyll yn aelodau o’r un teulu estynedig, a oedd wedi dweud wrth y Cyngor nad oeddent angen llety parhaol yn Nhorfaen. Ers 2016, nid yw’r teulu hwn wedi dychwelyd i Dorfaen ac mae nifer o wersylloedd heb awdurdod wedi parhau’n weddol isel.

Dim ond 1 neu 2 garafán oedd yn y rhan fwyaf o'r gwersylloedd, ond bu gwersylloedd mwy o faint o bryd i'w gilydd.

***Ffigwr 2 - Nifer y gwersylloedd heb awdurdod, yn ôl maint***

| Nifer y carafanau | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 7 | 13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer y gwersylloedd** | 14 | 23 | 7 | 5 | 3 | 3 | 1 |

Pan gysylltwyd â'r aelwydydd hyn am eu hanghenion llety, dywedodd pob un ohonynt nad oeddent yn chwilio am lety sefydlog yn Nhorfaen, mai teithio trwodd yn unig yr oeddent yn ei wneud.

*(Gweler Atodiad 2 am ddadansoddiad llawn o wersylloedd heb awdurdod)*

**Cyfrifiad 2011**

Yng Nghyfrifiad 2011 nodwyd bod **50** o aelwydydd yn byw yn Nhorfaen, yn cynnwys **155** o Sipsiwn a Theithwyr. Roedd y crynodiad mwyaf o'r aelwydydd hyn yn ward Cwm-ynys-cou, sef lleoliad y safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Roedd y 50 aelwyd yn cynnwys 33 o blant dibynnol, sy’n awgrymu ei bod yn debygol y bydd cynnydd yn nifer yr aelwydydd newydd yn ystod y degawd nesaf.

**Y Gofrestr Tai Cyffredin**

Archwiliwyd y Gofrestr Tai Cyffredin i bennu faint o aelodau o'r gymuned oedd wedi gwneud cais a'u bod yn aros am dai cymdeithasol.  Roedd 5 aelwyd Sipsiwn a Theithwyr sydd ar hyn

[1] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Equality-and-Diversity/Gypsy-and-Traveller-Caravan-Count/numberofcaravans-by-authorisation-localauthority

o bryd yn byw ar safle wedi gwneud cais i ymuno â'r gofrestr tai cymdeithasol; Roedd 2 yn byw ar safleoedd Shepherds Hill y Cyngor, a 3 yn byw ar safle preifat.

**Gwasanaeth Addysg Torfaen**

Mae gan Wasanaeth Addysg Teithwyr y Cyngor wybodaeth gynhwysfawr am deuluoedd Sipsiwn a Theithwyr yn Nhorfaen, a thrwy ddefnyddio eu rhwydweithiau presennol a'u harbenigedd lleol, maent yn rhoi cymorth gwerthfawr o ran adnabod aelodau o'r gymuned ac wedi gweithredu fel cyfrwng ar gyfer cyfleu gwybodaeth rhwng y gymuned a'r ymchwilwyr, felly'n helpu i godi proffil yr asesiad.

**Gwybodaeth Leol Arbenigol**

Roedd Grŵp Llywio Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) y Cyngor (gweler Pennod 4 am fanylion) yn cynnwys cynrychiolaeth o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr leol a meysydd gwasanaeth lleol sy'n gweithio gyda'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr. Roedd cael y cynrychiolwyr hyn ar y grŵp llywio yn helpu i sicrhau bod gwybodaeth leol yn cael ei defnyddio a bod yr asesiad yn cael ei hyrwyddo mor eang â phosibl.

## Y llety a ddarperir ar hyn o bryd

**Shepherds Hill a Lower Shepherds Hill, Pont-y-pŵl**

Mae'r safleoedd hyn yn eiddo i GBST Torfaen ac yn cael eu rheoli ganddo. Mae gan y ddau ganiatâd cynllunio; ac fel safleoedd sy'n eiddo i'r awdurdod lleol, nid oes angen trwydded safle carafanau. Mae Shepherds Hill yn cynnig **24 llain breswyl** a **2 lain dramwy**; ac ar safle Lower Shepherds Hill ar hyn o bryd mae **10 llain breswyl** (gyda 21 llain a ganiateir yn weddill i'w hadeiladu ar gamau pellach yn y dyfodol). Mae hyn yn gyfystyr â chyfanswm o **34 aelwyd** yn byw ar y safleoedd, ac yng nghyfrif carafanau Gorffennaf 2019 canfuwyd bod cyfanswm o **56 carafán/cartref symudol** ar y ddau safle.

***Ffigwr 3 - Shepherds Hill a Lower Shepherds Hill, Pont-y-pŵl***




**Mountain View, Pont-y-pŵl**

Mae hwn yn safle teuluol preifat sydd wedi'i awdurdodi (a ganiateir dan yr adran gynllunio a chanddi drwydded safle carafanau) sy'n cynnwys **10 llain breswyl**, gyda **18 carafán/cartref symudol**. Ar hyn o bryd mae **10 aelwyd** yn byw ar y safle ond mae lle i fwy o leiniau pe bai'r teulu'n parhau i dyfu.

**The Stables, Pont-y-pŵl**

Mae'r Stables yn safle preifat, gyda chaniatâd cynllunio, ac mae'n gartref i **1 aelwyd** ar hyn o bryd, ar **1 llain breswyl** (felly nid oes angen trwydded safle carafanau); ac mae **4 carafán/cartref symudol** yno ar hyn o bryd.

**Rose Cottage, Pont-y-pŵl**

Safle preifat, teuluol sydd â chaniatâd cynllunio cyfreithlon i'w ddefnyddio, ond mae'n safle carafanau heb awdurdod sy'n cael ei 'oddef' gan yr Awdurdod Lleol. Mae nifer y lleiniau/carafanau parhaol ar y safle yn amrywio oherwydd ymweliadau gan deulu estynedig, ond ar hyn o bryd mae **8 carafán/cartref symudol**, yn darparu llety i **6 aelwyd**. Mae'r perchennog yn bwriadu darparu 10 llain breswyl ychwanegol ar y safle, yn unol â dyraniad CDLl Torfaen, ac mae wrthi'n gwneud cais am ganiatâd cynllunio.

## Caniatâd Cynllunio Byw / Ceisiadau Cynllunio yn y Dyfodol

Cafodd safle Rose Cottage ei glustnodi ar gyfer 10 llain barhaol ychwanegol yn y CDLl presennol (2006-2021); mae cais cynllunio wedi ei gyflwyno ar gyfer y safle (sydd ar hyn o bryd yn annilys oherwydd diffyg gwybodaeth), ond mae'r ymgeisydd yn disgwyl bwrw ymlaen yn y dyfodol a bydd y llety ar gael yn fuan wedyn.

Rhoddwyd caniatâd cynllunio am 31 llain i Lower Shepherds Hill; mae 10 eisoes wedi'u cyflawni, gyda'r gallu i ddarparu 21 llain arall yn ôl yr angen.

# Pennod 4: Methodoleg

## Grŵp Llywio

Roedd y cynrychiolwyr canlynol yn aelodau o’r Grŵp Llywio a oruchwyliodd y dasg o gynnal y GTAA:

- Cynrychiolwyr o’r gymuned Sipsiwn a Theithwyr lleol yn Nhorfaen
- Swyddog Cyswllt Cymunedol Sipsiwn a Theithwyr (Cyngor Bwrdeistref Sirol
- Torfaen)
- Prif Gynllunydd (Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen)
- Uwch Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen)
- Arweinydd Tîm Strategaeth Tai (Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen)
- Rheolwr Cydraddoldeb, Cydlyniant a Diogelwch Cymunedol (Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen)
- Rheolwr Gwasanaeth Addysg i Dorfaen (Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen)
- Gweithiwr Cymorth, Gwasanaeth Sipsiwn a Theithwyr Gwent (Grŵp Pobl)
- Swyddog Ymchwil a Datblygu (Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen)

Ni wahoddwyd unrhyw un o'r sefydliadau a restrir yn Atodiad 1 o Ganllawiau GTAA LlC yn ffurfiol i ymuno â'r Grŵp Llywio, ond ymgynghorwyd â Travelling Ahead yn rhan o’r broses asesu i helpu i godi ymwybyddiaeth ynghylch y GTAA a cheisio cyrraedd y gymuned Sipsiwn a Theithwyr ehangach yn Nhorfaen a thu hwnt, gyda manylion ein GTAA yn cael eu hyrwyddo ganddynt trwy eu gwahanol sianelau cyfathrebu.

Yn ystod asesiad GTAA 2015, pan wahoddwyd sefydliad o Atodiad 1 i'r grŵp llywio, nid oedd ganddynt y wybodaeth leol oedd ei hangen i'n helpu i nodi aelwydydd ac felly ychydig iawn o fewnbwn a roddwyd i'r broses GTAA.

Mae gan Dorfaen Wasanaeth Addysg Teithwyr a phrosiect Gwasanaeth Sipsiwn a Theithwyr Gwent sy’n hynod effeithiol, a chwaraeodd y ddau ran sylfaenol yn hyrwyddo'r GTAA, canfod aelodau'r gymuned a chwblhau gwaith arolygu; yn enwedig gyda'r rhai sy'n byw mewn llety Brics a Morter, a safleoedd preifat. Roedd ganddynt hefyd y sgiliau a'r profiad perthnasol i ymgysylltu'n effeithiol â'r gymuned. O'r herwydd, llwyddodd Torfaen i nodi a chwblhau'r asesiad gyda sawl aelod o'r gymuned ar draws gwahanol ddeiliadaethau.

Felly, y tro hwn, roedd aelodau’r grŵp llywio yn canolbwyntio'n bennaf ar yr aelodau hynny a oedd yn adnabod ac yn gweithio gyda'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr leol ac a allai ein cynorthwyo i ymgysylltu â nhw.

## Methodoleg yr Astudiaeth

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2019, gan ddefnyddio'r cwestiynau cyfweld a nodir yng nghanllawiau GTAA Llywodraeth Cymru. Cyn cwblhau'r gwaith maes, cyfarfu'r grŵp llywio i ystyried y dasg o baratoi ar gyfer yr asesiad a chynorthwyo i nodi aelwydydd i'w cynnwys yn y broses asesu, gan ddefnyddio gwybodaeth ac arbenigedd sydd ar gael, yn ogystal â'r ffynonellau data presennol. Ymgynghorwyd ag Opinion Research Services (ORS) Ltd. Hefyd ac fe wnaethant roi cyngor ar gynnal y maes gwaith.

Yn dilyn cyfarfod cychwynnol y grŵp llywio, bu Swyddog Cyswllt Cymunedol Sipsiwn a Theithwyr Torfaen yn gweithio mewn partneriaeth â Gwasanaeth Addysg Teithwyr Torfaen a Gwasanaeth Sipsiwn a Theithwyr Gwent (Grŵp Pobl) i gynnal yr asesiadau ac ymweld â chyfranogwyr ar safleoedd presennol, mewn eiddo brics a morter, ac ar wersylloedd heb awdurdod.

Cysylltodd Torfaen yn agos hefyd ag awdurdodau lleol cyfagos; Blaenau Gwent a Sir Fynwy, i rannu arfer gorau a sicrhau bod modd cynnwys aelwydydd a oedd wedi mynegi diddordeb mewn cael cartref mewn awdurdodau cyfagos yn yr asesiadau perthnasol.

Er mwyn sicrhau bod gan Dorfaen gefnogaeth lawn y Cyngor, cafodd yr Aelod Gweithredol dros Wasanaethau Oedolion a Thai, yr Aelod Gweithredol dros yr Economi, Sgiliau ac Adfywio, a'r Aelod Gweithredol dros Lywodraethu a Pherfformiad Corfforaethol, a oedd yn goruchwylio Cydraddoldeb, eu briffio a rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf iddynt ynghylch proses yr asesiad.

Llwyddwyd i ymweld â'r holl Sipsiwn a Theithwyr arfaethedig a nodwyd yn ystod y broses asesu a rhoddwyd cyfle iddynt gael eu cyfweld; ni wnaeth 14 aelwyd gymryd rhan.

## Rhestr Wirio Ymgysylltu

1. Cysylltwyd â phob aelod o’r gymuned (a ganfuwyd trwy’r broses dadansoddi data) yn ystod y cyfnod asesu a chynhaliwyd ymweliadau dilynol ar gyfer unrhyw aelodau nad oeddent ar gael ar yr ymgais gyntaf (Mae manylion llawn yn y **Cofnod Cyfweld - Atodiad 3**)

2. Cafodd y GTAA gyhoeddusrwydd eang yn Nhorfaen trwy wefan yr Awdurdod Lleol, amrywiol sianeli cyfryngau cymdeithasol yn cynnwys Travelling Ahead, Traveller Times a Chartrefi Torfaen a chan aelodau’r Grŵp Llywio. Dosbarthwyd gwybodaeth hefyd yn Swyddfeydd y Cyngor, llyfrgelloedd, Eglwysi lleol, meddygfeydd a (thrwy’r Gwasanaeth Addysg i Deithwyr), i’r holl blant o blith Sipsiwn a Theithwyr a oedd mewn ysgolion lleol. Aeth World’s Fair Ltd i ddwylo’r gweinyddwyr yn ystod y cyfnod asesu a rhoddwyd y gorau i gyhoeddi Papur Newydd World’s Fair; felly yn lle, fe wnaethom ganolbwyntio ar y cyhoeddiadau eraill a restrir uchod a chyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo’r GTAA.

3. Defnyddiodd Torfaen arbenigedd y Gwasanaeth Addysg i Deithwyr a gwasanaeth Sipsiwn a Theithwyr Gwent, a gynorthwyodd i nodi dulliau arfer gorau ar gyfer ymgysylltu ag aelodau lleol o'r gymuned a chodi proffil yr asesiad. Ymgynghorwyd â Travelling Ahead i'n cynorthwyo i hyrwyddo'r asesiad yn ehangach drwy eu gwahanol sianelau cyfathrebu.

4. Mae Torfaen yn cadw Cofrestr Tai Cyffredinol, sef Homeseeker. Adeg yr asesiad roedd 5 aelwyd Sipsiwn a Theithwyr wedi'u cofrestru ar gyfer llety brics a morter. Mae Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr Torfaen yn cadw rhestr aros o aelwydydd sydd â diddordeb mewn symud i safle’r Awdurdod Lleol.

5. Ymunodd rheolwr safle Shepherds Hill â'r grŵp llywio ac ymgynghorwyd ag ef yn rheolaidd i roi cyngor a chymorth i hyrwyddo'r asesiad ymhlith y gymuned.

6. Yn ystod y broses asesu, ni wnaeth yr un o'r ymatebwyr a gymerodd ran nodi unrhyw aelodau ychwanegol eraill o'r gymuned a allai fod â diddordeb mewn cymryd rhan, felly nid oedd angen mynd ar drywydd hyn. Dywedodd rhai o'r ymatebwyr eu bod yn dymuno ymuno â'r gofrestr tai leol neu gael eu hystyried i dderbyn llain ar safle awdurdod lleol, felly cawsant wybodaeth a chymorth i gyflawni hyn.

7. Mae Torfaen yn ffodus i gael nifer o safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr, sydd yn ei gwneud hi’n haws adnabod aelodau o’r gymuned. Hysbysebodd y Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr yr asesiad ar safleoedd yr awdurdod lleol ac mae wedi bod ar gael i ateb unrhyw gwestiynau neu ymholiadau. Anogwyd aelodau'r Grŵp Llywio hefyd i roi cyhoeddusrwydd i'r asesiad mewn unrhyw ddigwyddiadau yr oeddent yn eu cynnal gyda'r gymuned. Mae gan safle Shepherds Hill ganolfan gymunedol sy’n rhoi lleoliad 15 canolog i gynnal cyfarfodydd ar y safle ac roedd gwybodaeth am yr asesiad ar gael yn y fan honno.

## Newidiadau i’r holiadur

Yn ogystal â'r holiadur cyffredinol, ychwanegodd Torfaen 2 gwestiwn ychwanegol, a chafwyd y canlyniadau canlynol:

**C1 Ble yn Nhorfaen hoffech chi fyw?**

| Lleoliad | Nifer | % | Lle nodwyd blaenoriaeth % |
|---|---|---|---|
| Shepherds Hill | 16 | 33% | 52% |
| Pont-y-pŵl | 12 | 24% | 39% |
| Cwmbrân | 3 | 6% | 10% |
| Dim ymateb | 18 | 37% | AMH |
| Cyfanswm | 49 | | |

**C2 Pe bai safle newydd yn cael ei adeiladu yn Nhorfaen, a fyddech chi'n ystyried byw yn:**

- Blaenafon
- Pont-y-pŵl
- Cwmbrân

| Lleoliad | Nifer | % | Lleoliad yn Nhorfaen yn unig % |
|---|---|---|---|
| Blaenafon | 4 | 6% | 8% |
| Pont-y-pŵl | 30 | 45% | 59% |
| Cwmbrân | 17 | 25% | 33% |
| Nid un o’r lleoliadau | 8 | 12% | AMH |
| Dim ymateb | 8 | 12% | AMH |
| Cyfanswm | 67 | | |

Cafodd y cwestiynau hyn eu cynnwys i gynorthwyo’r dasg o gynllunio i ddarparu llety ar gyfer y gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn y dyfodol, pe bai angen safle newydd. Bydd yn cael ei defnyddio i helpu i nodi'r rhannau hynny o'r fwrdeistref lle byddai'n well gan y gymuned Sipsiwn a Theithwyr fyw.

***Ffigwr 4 - Hysbysebion a Phosteri ar-lein***






***Ffigwr 5 - Gwefan yr Awdurdod Lleol a Hysbyseb y Free Press yn Lleol***

Skip to Content | Skip to Search | Listen | A-Z of Services Cymraeg

TORFAEN COUNTY BOROUGH BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

Stay Connected
Sign up for news and alerts

Search this site

Home » News » Gypsy and Traveller Accommodation Assessment

## Gypsy and Traveller Accommodation Assessment

**Posted on: Monday 11 November 2019**

Torfaen Council wants to speak to all Gypsy and Traveller families about their accommodation needs.

The Housing (Wales) Act 2014 requires the Local Authority to complete a Gypsy and Traveller Accommodation Assessment (GTAA) every 5 years. The assessment identifies whether Torfaen has sufficient accommodation for the Gypsy and Traveller community now and over the next 15 years

Participation in the GTAA will help us determine whether:

- We have enough pitches in Torfaen.
- We need to be developing more pitches on the existing sites.
- Whether a new site is needed and if so, where this should be located.

The assessment will be used to inform the new Local Development Plan (LDP), which is responsible for determining the use of land throughout the borough.

If you want to take part in the assessment, the Gypsy and Traveller Liaison Officer will arrange to visit you in your home to discuss your current accommodation needs and those of your family.

The deadline for all assessments to be completed is the 1st December 2019.

To arrange an assessment, please contact the Gypsy and Traveller Liaison Officer Brett Korshaven on 01495 742998 or email

### Other news in Planning & Development

- Bethlehem Chapel opens its doors once again thanks to funding contributions
  01/10/2019
- Open spaces consultation – we need your views
  25/09/2019
- Seven fantastic trees ready to fight it out for this year's Wales Tree of the Year
  18/09/2019
- Blaenavon World Heritage Site to be awarded £180,000 from Valleys Taskforce funding
  16/09/2019
- National Lottery funding benefitting young apprentices
  16/07/2019

TRUSTED NEWS READ BY 19,706* PEOPLE

PONTYPOOL Free Press 50p Wednesday, November 13, 2019

localiq.co.uk
The power of knowing local.
To discuss your advertising:
01633 777000
sales@freepressseries.co.uk
freepressseries.co.uk

## Council wants to speak to Gypsies

TORFAEN council wants to speak to all Gypsy and Traveller families about their accommodation needs.

The Housing (Wales) Act 2014 requires the Local Authority to complete a Gypsy and Traveller Accommodation Assessment (GTAA) every five years. The assessment identifies whether Torfaen has sufficient accommodation for the Gypsy and Traveller community now and over the next 15 years.

If you want to take part in the assessment, the Gypsy and Traveller Liaison Officer will arrange to visit you in your home to discuss your current accommodation needs and those of your family.

The deadline for all assessments to be completed is the December 1 2019.

To arrange an assessment, please contact the Gypsy and Traveller liaison officer Brett Korshaven on 01495 742998 or email Brett.Korshaven@torfaen.gov.uk

# Pennod 5: Canfyddiadau'r Arolwg

### Cyfweliadau ag Aelwydydd

Cymerodd 49 o aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr ran yn y GTAA, a hynny'n cynrychioli aelodau'r gymuned Romani, Teithwyr Gwyddelig a Sipsiwn a Theithwyr.

Cysylltwyd â 24 aelwyd arall yn ystod y cyfnod asesu ond ni chymeron nhw ran. *(Cofnodir manylion llawn yr ymweliadau hyn yn y cofnod cyfweliadau yn **Atodiad 3**)*

### Proffil Demograffig o'r Boblogaeth

Mae'r siart isod yn dangos dadansoddiad o lety ac ethnigrwydd y 49 a ymatebodd:

***Ffigwr 6 - Lleoliad ac Ethnigrwydd yr Ymatebwyr***

| | Romani | Teithwyr Gwyddelig | Sipsiwn a Theithwyr | Dim ymateb | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| **Safle Awdurdod Lleol** | 18 | 3 | 0 | 2 | 23 |
| **Safle preifat gyda chaniatâd cynllunio** | 5 | 0 | 2 | 0 | 7 |
| **Safle preifat heb ganiatâd cynllunio** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
